Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cynllunio ein dyfodol: ymgynghoriad

4 Tachwedd 2013 – 10 Ionawr 2014

## Rhagair

Amgylchedd Cymru yw un o'n hadnoddau gorau. Mae ei fywyd gwyllt, ei dirweddau a'i forweddau yn agos at galon pobl yng Nghymru a thu hwnt, ac mae'n hanfodol yn sgil gwasanaethau a gawn ganddo – bwyd a dŵr, ynni – a'r aer a anadlwn hyd yn oed. Mae ein hamgylchedd yn cyfrannu at ein ffyniant economaidd a'n hymdeimlad o gymuned.

Ond rydym yn wynebu cyfnod anodd – ochr yn ochr â'r angen i addasu i newid yn yr hinsawdd a dirywiad bioamrywiaeth, a lleihau effaith y newidiadau hyn, rhaid i ni drechu tlodi a chynyddu ffyniant economaidd. Mae pob rhan o'n heconomi, ein teuluoedd a'n cymunedau yn parhau i deimlo ôl-effeithiau'r argyfwng ariannol. Mae angen i ni wella iechyd a lles poblogaeth Cymru a sicrhau ein bod ni'n byw bywydau hir ac iach.

Cred Cyfoeth Naturiol Cymru bod gennym gyfle gwych i ymateb i heriau o'r fath – nid ar ein pen ein hunain, ond drwy weithio law yn llaw â phartneriaid yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y trydydd sector a chymunedau lleol. Drwy fanteisio'n llawn ar egwyddor cynaliadwyedd ac ystyried sut dylem ni ddefnyddio systemau naturiol a mecanweithiau'r farchnad, gall Cymru fod yn genedl fwy llewyrchus, cydlynol a chadarn.

Yn ei ddatganiad ar gyfer yr Hydref, 'Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus', mae Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, yn dweud bod twf gwyrdd yn hanfodol i ddyfodol Cymru, ynghyd â defnyddio adnoddau'n effeithlon a threchu tlodi. Mae gwella cydnerthedd ac amrywiaeth ein hadnoddau naturiol, a'r sectorau allweddol sy'n dibynnu arnynt, yn hollbwysig hefyd i ddatblygu Cymru'n gynaliadwy yn y dyfodol. Bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn canolbwyntio ar sicrhau bod fframwaith deddfwriaethol ar waith i reoli adnoddau naturiol mewn modd cydlynol. Rydym yn rhannu dyheadau'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru a byddwn yn mynd ati i'w gwireddu.

Sefydliad newydd yw Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn benderfynol o fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw drwy hynny i fynd ati i gynnal, gwella a defnyddio cyfoeth naturiol Cymru yn **angerddol ac yn uchelgeisiol**. Rydym yn sylweddoli na fydd gweithio fel y gwnaethom yn y gorffennol yn ddigon. Mae llawer i'w wneud, ond i sicrhau llwyddiant, rhaid sicrhau **disgyblaeth a ffocws** yn ein hymdrechion - gan ddefnyddio'n hadnoddau gwerthfawr er lles Cymru. Trwy fod yn fwy **effeithlon**, byddwn yn arbed arian ac yn ail-fuddsoddi'r arian hwnnw yn ein gwaith. Byddwn yn chwilio am **gyfleoedd** i greu incwm drwy gyfrwng mentrau, defnyddio technoleg i fod yn fwy ymatebol a meithrin cysylltiadau gwell â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Rydym wedi ymrwymo i fod yn **sefydliad sy'n dysgu** – dysgu o'n profiadau a'n harferion ni'n hunain ac eraill ym mhedwar ban byd, a bod yn ddoethach yn sgil hynny.

Trwy ganolbwyntio ar **ganlyniadau, integreiddio** ein gwasanaethau a **gwerth am arian**, ein nod yw datblygu llawn botensial ein staff, gweithio gyda phartneriaid a sicrhau bod pob penderfyniad yn seiliedig ar farn a **thystiolaeth gadarn**. Ein nod yw y bydd ein holl staff,

eu cynrychiolwyr a phobl Cymru yn **ymddiried** ynom – a byddwn yn ymddwyn yn **broffesiynol** ym mhopeth a wnawn.

Yn ddiweddar fe ofynnon ni am farn detholiad o randdeiliaid ar ein dulliau gweithio a'r hyn ddylai gael blaenoriaeth gennym. Bellach, rydym yn mynd gam ymhellach drwy amlinellu ein bwriad strategol at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus. Hoffem eich barn ar ein cynigion ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru dros y tair blynedd nesaf. Byddwn yn defnyddio'ch safbwyntiau wedyn i ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol.

Rydym yn gobeithio y gwnewch chi fwynhau darllen yr ymgynghoriad hwn ac y cewch eich ysbrydoli i anfon eich sylwadau i helpu i lywio'r Cynllun Corfforaethol, ac i weithio gyda ni i wireddu ei ddyheadau.

**Yr Athro Peter Matthews**
**Cadeirydd**

**Dr Emyr Roberts**
**Prif Weithredwr**

## Rhesymau am yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cyfres o gynigion sy'n nodi ein bwriadau ar gyfer y tair blynedd nesaf, a dyma fydd prif elfen ein Cynllun Corfforaethol. Fe hoffem i chi ystyried y cynigion hyn a chyflwyno'ch sylwadau arnynt. Bydd hyn yn ein helpu i baratoi'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014–17.

Rydym yn sefydliad newydd a hwn fydd ein Cynllun Corfforaethol cyntaf. Rydym eisiau sicrhau ein bod wedi ystyried barn ein rhanddeiliaid: rydym yn awyddus i glywed eich syniadau.

Mae gennym gylch gwaith eang iawn ac adnoddau cyfyngedig felly ni fydd modd i ni wneud popeth ym mhob man. Mae gennym lawer o ddyletswyddau statudol hefyd; mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u pennu gan ddeddfwriaeth a rhaid i ni eu cyflawni. Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain, ac ni fyddem yn dymuno gwneud chwaith. Ac nid yw pob ateb gennym; rydym eisiau clywed sut gallwn ni ddysgu a gweithio gyda sefydliadau a grwpiau eraill yn y ffordd orau bosibl er lles Cymru.

Byddwn yn cyhoeddi'n Cynllun Corfforaethol cyntaf ym mis Mawrth 2014. Bydd yn egluro'n cyfeiriad strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Yn yr ymgynghoriad hwn byddwn yn ystyried:

- Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud
- Ein diben
- Sefydlu ein sefydliad newydd
- Ein pobl
- Ein cyllid
- Sut rydym ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a sut gallwn helpu i gyflawni eu pedair blaenoriaeth gweithredu
- Ein gwaith: Beth rydym ni'n ei wneud
- Ein sefydliad: Sut rydym ni'n gweithio
- Sut byddwn ni'n mesur llwyddiant: Adrodd ar pa mor dda rydym yn cyflawni ein gwaith

Yn ystod haf 2013 fe gynhalion ni 10 digwyddiad lle bu i ni a sefydliadau eraill ddod ynghyd i drafod beth rydym ni'n ei wneud a sut rydym yn gweithio. Fe wnaeth dros 130 o sefydliadau gymryd rhan, yn amrywio o sefydliadau o fyd busnes a diwydiant i grwpiau cymunedol a grwpiau bioamrywiaeth arbenigol. Mae'r digwyddiadau hyn wedi rhoi safbwyntiau lu i ni ac rydym wedi eu hystyried wrth lunio'r ddogfen hon.

Drwy roi o'n hamser a gwrando ar ein rhanddeiliaid teimlwn ein bod ni eisoes mewn sefyllfa gryfach i fwrw ymlaen. Ein nod nawr yw adeiladu ar hyn a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar ein cynigion. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni gael amrywiaeth ehangach eto o gyfraniadau i'n helpu i lunio'r fersiwn derfynol o'n Cynllun Corfforaethol.

# Sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn

Hoffem gael eich barn ar ein cynigion ac a ydynt yn pennu'r cyfeiriad cywir ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r ymgynghoriad yn seiliedig ar gyfres o gynigion ynglŷn â beth rydym am ei gyflawni a sut rydym am weithio.

Rydym eisiau i chi ddweud wrthym a ydych yn credu ein bod ni'n canolbwyntio ar y meysydd gwaith cywir, a oes unrhyw fylchau o bwys a sut gallem ni weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth i gyflawni ein cynigion. Byddem yn gwerthfawrogi'ch barn ar ein dulliau arfaethedig o weithio yn y dyfodol hefyd. Yn gryno, sut gallwn ni sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru?

Byddwn yn datblygu ein Cynllun Corfforaethol llawn yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gallwch ddweud eich dweud drwy gwblhau'r ffurflen ymateb sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn a'i hanfon at corporate.planning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Neu

Y Tîm Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad
Cyfoeth Naturiol Cymru
Llawr 2
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

Daw'r ymgynghoriad i ben ddydd Gwener 10 Ionawr 2014.

# Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

Mae'r adran hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir am Cyfoeth Naturiol Cymru, cyn i ni amlinellu'r cynigion yr hoffem ni i chi gyflwyno sylwadau arnynt.

### Ein diben…

yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

### Ein dyhead yw Cymru…

lle mae'n aer, ein tir a'n dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mae hyn yn golygu:

- **Amgylchedd Da**: mae ecosystemau'n gallu gwrthsefyll ac yn ddiogel ar gyfer y dyfodol, mae bywyd gwyllt a thirweddau'n cael eu gwella, a'r defnydd o adnoddau naturiol yn cael ei reoli'n ofalus

- Lle **Da i Bobl**: pobl yn mwynhau, gwerthfawrogi ac yn elwa ar ein hamgylchedd naturiol ac yn deall sut mae'n berthnasol i'n bywyd bob dydd

- Lle **Da i Fusnesau**: 'lleoliad o ddewis' ar gyfer busnes a menter a man lle mae arfer gorau o ran rheoli'r amgylchedd yn cael ei fabwysiadu a'i annog

- Defnyddio **Gwybodaeth Dda**: meithrin doethineb a dealltwriaeth o'n hamgylchedd naturiol a sut rydym ni'n effeithio arno – defnyddio tystiolaeth a dysgu o brofiad, fel y gallwn ni wneud penderfyniadau da

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff mwyaf yng Nghymru sy'n cael ei Noddi gan y Llywodraeth. Daeth i rym ym mis Ebrill 2013, gan ysgwyddo swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru i raddau helaeth, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

Mae gennym amrywiaeth eang o rolau a chyfrifoldebau. Mae rhai'n statudol, sy'n golygu ei bod nhw wedi'u pennu gan ddeddfwriaeth ac mae'n rhaid i ni eu cyflawni. Mae rhai eraill yn ddewisol ond maent yn cyfrannu at ein diben cyffredinol.

Dyma rai o'n rolau a chyfrifoldebau:

- **Prif ddarparwr cyngor:** i Lywodraeth Cymru ar yr amgylchedd ac adnoddau naturiol
- **Ymgynghorai statudol:** rydym ni'n ymateb i ryw 9,000 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn
- **Awdurdod dynodi:** ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) – ardaloedd o werth arbennig am eu bywyd gwyllt neu ddaeareg, ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)

- **Rheoleiddiwr:** amddiffyn pobl a'r amgylchedd gan ddefnyddio dros 40 set wahanol o reoliadau gan gynnwys rheoliadau ar gyfer safleoedd dynodedig, yr amgylchedd morol, coedwigaeth a'r diwydiannau niwclear, gwastraff a dŵr.
- **Rheolwr tir:** ar gyfer 7% o arwynebedd tir Cymru yn cynnwys coetiroedd, dŵr a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.
- **Gweithredwr amgylcheddol:** yn rheoli dros 120,000 hectar o goetir, cynnal a chadw bron i 2,000 o filltiroedd o amddiffynfeydd llifogydd a chynnal ein labordy ni'n hunain
- **Darparwr a galluogwr hamdden:** gweithredu canolfannau ymwelwyr ledled Cymru, 550 cilometr o lwybrau beicio mynydd, 135 cilometr o lwybrau marchogaeth, 450 cilometr o lwybrau cerdded a llu o safleoedd picnic, yn ogystal â helpu eraill i ddarparu cyfleoedd hamdden
- **Ymateb i ddigwyddiadau:** ymdrin â thua 9,000 o ddigwyddiadau a gofnodir a rhoi rhybuddion llifogydd i dros 100,000 o bobl
- **Gweithredwr masnachol:** marchnata rhyw 825,000 metr ciwbig o goed a chyflawni tua 300 o gontractau cynaeafu coed
- **Erlynydd:** cymryd camau gorfodi ac erlyn y rhai sy'n torri'r rheoliadau a'r cyfreithiau rydym ni'n gyfrifol am eu cynnal
- **Partner:** cydweithiwr allweddol gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan gyflawni prosiectau er budd Cymru
- **Addysgwr:** helpu bron i 20,000 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn i ddysgu am yr amgylchedd naturiol, ac i ddysgu ynddo, a helpu eraill i ddefnyddio'r amgylchedd fel adnodd dysgu
- **Galluogwr:** rhoi tua £10 miliwn o gyllid yn uniongyrchol i bartneriaid er lles yr amgylchedd a chymunedau
- **Casglwr tystiolaeth:** monitro ein hamgylchedd a chomisiynu a chyflawni gwaith ymchwil, a datblygu gwybodaeth.

Rydym yn gweithio gydag ystod eang o bobl a sefydliadau mewn amrywiol ffyrdd gwahanol: o ffermwyr a rheolwyr tir i fusnesau, diwydiant, cynllunwyr a datblygwyr; o lywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol i grwpiau buddiant a chymunedau lleol, gwyddonwyr a sefydliadau academaidd. Rydym yn gwneud cyfraniad pwysig i bob agwedd ar fywyd yng Nghymru fwy neu lai.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth – rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein staff, ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn rhan annatod o'n dulliau gweithio a'n ffyrdd o gyflenwi ein gwasanaethau i bobl Cymru a byddwn yn bodloni pob un o'n hymrwymiadau yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Cafodd ein Cynllun Iaith Gymraeg sêl bendith Comisiynydd yr Iaith Gymraeg ar 28 Mawrth 2013. Mae'n disgrifio sut byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd a'n staff.

## Sefydlu ein sefydliad newydd

Mae'r Achos Busnes dros greu Cyfoeth Naturiol Cymru yn egluro manteision sefydlu ein sefydliad newydd, sef:

- **Cyflawni'n well dros Gymru:** fel bod ein gwaith yn fwy cydnaws â blaenoriaethau Cymru, a bydd datblygu cynaliadwy wrth wraidd popeth a wnawn
- **Canlyniadau gwell i Gymru:** fel ein bod yn rhoi cyngor cydlynol a chanllawiau cliriach yn ein swyddogaethau fel darparwr cyngor ac ymgynghorai statudol fel un sefydliad
- **Gwell gwerth am arian:** mae disgwyl i ni gynhyrchu buddiannau o £158 miliwn yn ystod ein 10 mlynedd gyntaf yn sgil mwy o effeithlonrwydd wrth gyfuno tri sefydliad mewn un.

Rydym ni wedi dechrau gwireddu'r buddiannau hyn eisoes.

Rydym yn gwybod pa fath o sefydliad yr hoffem ni fod, ond bydd angen amser arnom ni i wireddu'n huchelgais. Rydym wedi ymrwymo i ddysgu wrth i ni ddatblygu a dyfeisio atebion gyda'n partneriaid. Mae angen i ni ad-drefnu'n ffordd o weithio a chyflawni gwaith y busnes heb i hynny amharu ar ddarparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid. Yn ddiweddar, fe gynhalion ni sgwrs gyda'r sefydliad cyfan a gwrando'n astud ar farn ein staff. Fe glywsom ni am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn yr oedd angen ei wella, a thrafodwyd pa fath o gorff roeddem ni eisiau i bobl gredu oeddem ni. Ar sail hyn, rydym wedi datblygu'r gyfres isod o werthoedd ar gyfer y sefydliad, sy'n disgrifio'r math o sefydliad a phobl rydym yn awyddus i fod:

- **Angerddol ac uchelgeisiol** am ein gwaith a'r effaith gadarnhaol a gawn
- **Disgybledig ac ymroddedig** wrth i ni flaenoriaethu a chyflawni
- **Ennyn ymddiriedaeth a phroffesiynoldeb** yn ein perthynas â rhanddeiliaid, staff, a'u cynrychiolwyr
- A byddwn yn defnyddio **synnwyr cyffredin** yn ein gwaith a bod yn **gyfrifol** ac yn **atebol** am ein gweithredoedd.

## Ein Pobl

Mae gennym tua 2,000 o staff ledled Cymru – gwyddonwyr, peirianwyr, coedwigwyr, arbenigwyr hamdden ac addysg, pobl sy'n gweithio gyda chymunedau lleol, yn ogystal ag eraill sy'n galluogi ein sefydliad i weithio'n effeithiol ac yn effeithlon.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales


## Ein Cyllid

Mae gennym gyllideb o tua £180 miliwn ar gyfer 2013/14. Daw 65% ohono o Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn cael cymorth grant o ffynonellau eraill hefyd ac yn masnachu, gan greu incwm o werthu coed ac o'n safleoedd hamdden. Rydym yn codi tâl ar bobl am ein trwyddedau hefyd.

Yn ystod oes y Cynllun Corfforaethol hwn, yn yr un modd â llawer o sefydliadau eraill, byddwn yn parhau i fod dan gryn bwysau'n ariannol. Gallai ein cyllid leihau wrth i'r galw ar ein gwasanaethau gynyddu. Mae angen i ni fuddsoddi hefyd mewn newidiadau i leihau ein dibyniaeth ar wasanaethau a ddarperir gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth.

I gyflawni'n canlyniadau yn y cyfnod ariannol anodd hwn, bydd angen i ni:

- **Sicrhau arbedion** effeithlonrwydd sylweddol sy'n rhyddhau arian er mwyn cyrraedd y targedau o fuddiannau roedd Lywodraeth Cymru wedi'u gosod y dylem eu cyflawni yn ystod ein 10 mlynedd gyntaf
- **Sicrhau cymaint o gyfleoedd** â phosibl i gynhyrchu incwm drwy fod yn arloesol mewn perthynas â mentrau
- **Datblygu** gwaith ar y cyd i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau ac arbenigedd, a sicrhau'r manteision gorau posibl gyda'n partneriaid
- **Blaenoriaethu** ein gweithgareddau ac ystyried gwahanol ffyrdd o'u hariannu.



## Sut rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ydym ni. Mae gennym swyddogaethau sy'n annibynnol ar y Llywodraeth ond rydym yn cydnabod bod angen i ni gydweithio'n agos. O'r herwydd, rydym wedi cytuno ar gyfres o ganlyniadau cyffredin. Mae angen i bopeth a wnawn gyfrannu at un neu fwy o'r rhain, sef:

- Gwella ein hamgylchedd
- Diogelu pobl
- Cefnogi mentergarwch a swyddi
- Gwella iechyd y genedl
- Lleoedd sy'n hyfyw ac yn llawn bywyd
- Sicrhau cyfiawnder cymdeithasol
- Cefnogi sgiliau a gwybodaeth.

Maent hefyd wrth wraidd y blaenoriaethau gweithredu a nodir yn 'Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus', Datganiad yr Hydref oddi wrth Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Y blaenoriaethau gweithredu hyn yw sicrhau **twf gwyrdd**, **defnyddio adnoddau'n effeithlon**, **trechu tlodi** a **gwella cydnerthedd ac amrywiaeth** ein hadnoddau naturiol.

Mae'r canlyniadau cyffredin hyn yn ein cysylltu ni gyda bywyd Cymru yn fwy cyffredinol, yn rhoi ffocws parhaol i ni, ac yn ein cysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid. Fel hyn, nid yn unig mae ein gwaith yn cyfrannu at gynlluniau a strategaethau sy'n ymdrin â'r amgylchedd, newid yn yr hinsawdd a'r newid i economi carbon isel, ond hefyd at y strategaethau hynny sy'n ymdrin ag iechyd a lles, tlodi, addysg, cydraddoldeb ac amrywiaeth a meithrin cymunedau cydnerth.

Rydym yn cael llythyr cylch gwaith ar ddechrau pob blwyddyn ariannol sy'n nodi beth mae Llywodraeth Cymru eisiau i ni ei gyflawni yn ystod y flwyddyn honno. Gellir gweld y Llythyr Cylch Gwaith cyfredol yn adran gyhoeddiadau gwefan Llywodraeth Cymru.

Bydd Cynllun Busnes blynyddol manylach yn cyd-redeg â'r Cynllun Corfforaethol ei hun.

## Cwestiynau: Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

1. A yw'n diben, rolau, canlyniadau cyffredin a chyllid yn glir ac yn ddealladwy?
2. A hoffech weithio gyda ni mewn unrhyw ffordd i gyflawni'r canlyniadau'r cyffredin hyn?
3. A oes gennych chi unrhyw syniadau ar gyfer ffyrdd newydd o ariannu ein gweithgareddau gyda'n partneriaid?

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## Ein gwaith: Beth rydym yn ei wneud – cynigion a chwestiynau

Yn yr adran hon, rydym yn rhoi tipyn mwy o gyd-destun ac yna'n nodi'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud – ein cynigion – a fydd yn cyflawni ein cyfraniad at y canlyniadau cyffredin hynny, ac yn nodi sut byddem yn dymuno gweithio.

Rydym wedi rhannu **beth** rydym yn bwriadu ei wneud o dan y pedwar maes a ddisgrifir yn ein diben, ac mae adran ar **sut** byddwn yn gweithio i orffen. Dilynir pob adran gan gyfres o gwestiynau rydym ni am i chi eu hystyried.

### Amgylchedd Da – mae ecosystemau'n gallu gwrthsefyll ac yn ddiogel ar gyfer y dyfodol, bywyd gwyllt a thirweddau'n cael eu gwella, a'r defnydd o adnoddau naturiol yn cael ei reoli'n ofalus

#### Yr angen am newid

Mae sawl her yn wynebu ein hamgylchedd yng Nghymru: effeithiau newid yn yr hinsawdd, plâu a chlefydau, colli bioamrywiaeth, llygredd, ansawdd aer gwael mewn rhai mannau a chystadleuaeth am dir a dŵr. Mae angen i ni gyflawni ein cyfrifoldebau cenedlaethol a rhyngwladol hefyd, a sicrhau ein bod ni'n rheoli ein hadnoddau naturiol yn unol â'n huchelgais i sicrhau ecosystemau gwydn. Mae rheoli adnoddau naturiol wrth wraidd Bil yr Amgylchedd (Cymru): Papur Gwyn, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n amlinellu fframwaith newydd ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol.

**Newid yn yr hinsawdd:** Mae adroddiad diweddaraf y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) wedi cadarnhau bod newid yn yr hinsawdd yn digwydd ac mai gweithgarwch pobl sy'n achosi hynny. Felly y blaenoriaethau pennaf yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang, a diogelu dalfeydd carbon naturiol. Rhaid i Gymru wneud ei rhan.

Rhaid i Gymru addasu i newid yn yr hinsawdd hefyd. Mae'r IPCC yn rhagweld y bydd tymheredd wyneb y ddaear yn codi rhwng 1ºC a 4ºC erbyn 2100. O ganlyniad, bydd lefel y môr yn codi a bydd mwy o lifogydd, cyfnodau o dywydd poeth a sychder. Bydd y newidiadau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar bobl ac yn cael cryn effaith ar systemau naturiol Cymru.

**Colli Bioamrywiaeth:** Mae llawer o'n cynefinoedd a rhywogaethau bywyd gwyllt yn dirywio'n ddifrifol, fel y nodir yn yr adroddiad Sefyllfa Byd Natur (2013): mae angen i ni helpu i arafu, a throi yn ôl, os oes modd, y golled mewn cynefinoedd a bioamrywiaeth. Yn 2008, nodwyd 38 cynefin â blaenoriaeth yng Nghymru. Roedd 39% o'r rhain yn rhai sefydlog neu ar gynnydd, ac ystyriwyd bod 53% yn dirywio. Roedd 34% o'n rhywogaethau â blaenoriaeth yn rhai sefydlog neu'n cynyddu ac ystyriwyd bod 21% wedi'u colli neu'n dirywio.

**Plâu a Chlefydau:** Bu mwy o achosion o blâu a chlefydau fel *Phytophthora ramorum* mewn coed llarwydd a *Chalara fraxinea* (clefyd coed ynn) yn y blynyddoedd diwethaf. Ddiwedd mis Medi 2013, o'r 20,000 hectar o larwydd yng Nghymru, roedd 6,000 hectar wedi'u heintio, a bydd angen eu cwympo os nad yw hynny eisoes wedi digwydd.

**Llygredd ac Ansawdd Aer, Tir a Dŵr:** Yn 2012, roedd tua 25 achos o lygredd aer Categori 1 neu 2, rhyw 40 achos o lygredd tir, a thua 70 o ddigwyddiadau ansawdd dŵr. Hefyd yn 2012, dim ond 36% o'n dŵr wyneb oedd â statws ecolegol da neu well, ac roedd 90% o'n dyfroedd ymdrochi yn dda neu'n rhagorol.

## Ein cynigion

**Byddwn yn datblygu'r ffordd yng Nghymru o reoli adnoddau naturiol, gan ddefnyddio'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem fel sail i benderfyniadau, er mwyn sicrhau y gall adnoddau naturiol Cymru ein cynnal ni nawr ac yn y dyfodol:**

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r dull cyffredinol, gan gynnwys sut mae cymhwyso hyn i'n dulliau gweithio ni
- Defnyddio meysydd allweddol o'n gwaith fel rheoli'r perygl o lifogydd, cynlluniau rheoli basn afon, rheoli safleoedd gwarchodedig, a chynllunio coedwigoedd i ddangos sut mae'r dull hwn yn gweithio yn ymarferol
- Cyfleu dealltwriaeth sy'n cael ei rhannu rhyngom ni ac eraill o sut i reoli adnoddau naturiol a dull rheoli ar lefel yr ecosystem.

**Byddwn yn sicrhau bod y tir a'r dŵr a reolwn yn cael eu rheoli'n gynaliadwy a byddwn yn helpu eraill i wneud yr un fath, drwy:**

- Ddangos y coetiroedd, y Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a'r Warchodfa Natur Forol a reolwn fel enghreifftiau o arfer gorau
- Gweithio gyda pherchenogion tir, cwmnïau dŵr ac eraill i reoli ein hadnoddau dŵr, diogelu cyflenwadau dŵr a helpu i atal achosion o lifogydd
- Cefnogi camau ymarferol sy'n helpu i wella maint, ansawdd ansawdd a chysylltedd ein cynefinoedd â blaenoriaeth a sicrhau poblogaethau hyfyw o rywogaethau â blaenoriaeth.

**Byddwn yn helpu i ddiogelu a gwella ansawdd ein haer, tir, môr a dŵr, drwy:**

- Weithredu polisïau'r Undeb Ewropeaidd, y Deyrnas Unedig a Chymru a Chyfarwyddebau, fel y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
- Cyhoeddi canllawiau, a thrwyddedau ac, os oes angen, cymryd camau yn unol â'n polisi gorfodi ac erlyn
- Hybu effeithlonrwydd adnoddau a gweithio tuag at fod Cymru'n gwbl ddiwastraff.

**Byddwn yn gwneud ein rhan i atal colli bioamrywiaeth er mwyn helpu i sicrhau bod ecosystemau'n fwy gwydn, erbyn 2020, drwy:**

- Sicrhau ein bod yn helpu i fodloni'r 20 targed bioamrywiaeth a gytunwyd yn sgil Aichi 2010 a 2020 yr Undeb Ewropeaidd, yn cynnwys y rhai yn Strategaeth Natur Cymru sydd wrthi'n cael ei datblygu
- Rhoi ein hymateb i Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2013
- Sicrhau bod ein camau ar gyfer bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn sicrhau canlyniadau effeithiol ar gyfer amgylcheddau daearol, morol a dŵr croyw ledled Cymru
- Helpu i sicrhau nad oes rhagor o rywogaethau a chynefinoedd o bwys yng Nghymru yn cael eu colli, a helpu i adfer poblogaethau i statws cadwraeth da
- Creu cynefinoedd o ganlyniad i'n gwaith i reoli'r perygl o lifogydd a chyflawni ein rhaglen creu cynefinoedd yn gysylltiedig gyda hynny.

**Byddwn yn helpu i sicrhau bod Cymru'n gallu dygymod yn well â newid yn yr hinsawdd ac effeithiau eraill, yn ogystal â chefnogi ymdrechion byd-eang i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy:-**

- Addasu i newid yn yr hinsawdd drwy:
  - Nodi ardaloedd mewn perygl o lifogydd yn y dyfodol
  - Mynd i'r afael â rhywogaethau anfrodorol ymledol a deall y gallai ein hamrywiaethau o rywogaethau fod yn wahanol yn y dyfodol
  - Rheoli a blaenoriaethu'r gwaith o reoli plâu a chlefydau sy'n dod i Gymru fel *Phytophthora ramorum*
  - Cynyddu amrywiaeth ein coetiroedd fel eu bod yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn well.

- Lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy:
  - Sicrhau bod lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael ei ystyried yn ein penderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli tir, cynghori a rheoleiddio
  - Cefnogi'r gwaith o blannu coetiroedd newydd ac adfer a gwarchod mawn dwfn
  - Cynhyrchu ynni adnewyddadwy fel gwynt, dŵr a thanwydd coed er mwyn dibynnu llai ar danwydd ffosil.
  - Annog y defnydd o fwy o goed fel deunydd adnewyddadwy sy'n dal carbon
  - Bod yn sefydliad sy'n dysgu ac yn esiampl i eraill o ran sut rydym yn rheoli ein heffaith ni ar yr amgylchedd.

## Cwestiynau: Amgylchedd Da

4. A ydych chi'n cytuno â'n cynigion a sut rydym yn awgrymu eu cyflawni?
5. A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig?
6. Sut gallwn ni weithio orau mewn partneriaeth â chi i gyflawni'r rhain? Beth allwch chi ei wneud i helpu?

## Lle Da i Bobl – pobl yn mwynhau, gwerthfawrogi ac yn elwa ar ein hamgylchedd naturiol ac yn deall sut mae'n berthnasol i'n bywyd bob dydd

### Yr angen am newid

Mae potensial aruthrol i ddefnyddio ein hamgylchedd i wella iechyd ac amgylchedd lleol pobl, i gefnogi cymunedau a swyddi lleol, fydd o gymorth i fynd i'r afael â thlodi ac i gynnig cyfleoedd hamdden. Yn aml iawn nid yw pobl yn teimlo cysylltiad â'u hamgylchedd naturiol: dim ond 21% o blant 8–12 oed yn y Deyrnas Unedig sydd â lefel briodol o gysylltiad â natur; mae'r ffigur yn 13% yng Nghymru. Hefyd, mae angen i ni helpu i ddiogelu pobl rhag digwyddiadau fel llifogydd a llygredd, sy'n gallu cael effaith drychinebus ar fywydau pobl.

**Rheoli digwyddiadau amgylcheddol**: Mae 220,000 o gartrefi yng Nghymru mewn perygl o lifogydd, ond dim ond 59% o gartrefi lle mae perygl o lifogydd ac sydd mewn ardal lle gellir rhoi rhybudd o lifogydd sydd wedi cofrestru gyda Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol. Cafwyd dros 130 o ddigwyddiadau llygredd gwahanol yn 2012.

**Swyddi a Thwf:** Yn 2012, roedd 26.5% o'r boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru yn economaidd anweithgar. Mae 235,000 o oedolion oedran gweithio yng Nghymru yn anabl ac nid ydynt yn gweithio. Mae'r amgylchedd yn ffynhonnell bwysig o swyddi a thwf gwyrdd.

**Gwell iechyd, hamdden a mynediad:** Mae disgwyliad oes iach yn amrywio'n helaeth ledled Cymru (o 57.1 oed ym Mlaenau Gwent i 68.2 oed yn Sir Fynwy). Gall mwy o weithgarwch wella iechyd corfforol ac iechyd meddwl, a gall mwynhau amgylchedd naturiol fod yn llesol ynddo'i hun. Mae coetiroedd wedi dod yn gyrchfannau mwy a mwy poblogaidd ar gyfer hamdden awyr agored. Mae 29% o boblogaeth Cymru yn llwyddo i wneud yr isafswm o weithgarwch corfforol a argymhellir gan y WHO (Sefydliad Iechyd y Byd) drwy weithgareddau hamdden awyr agored. Gallai'r lefel hon fod yn uwch o lawer.

**Cymunedau:** Mae 80% o'n poblogaeth (2.4 miliwn o bobl) yn byw mewn trefi a dinasoedd ac mae disgwyl i nifer y bobl sy'n byw mewn lleoliadau trefol yng Nghymru gynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae 700,000 o bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi – bron i chwarter y boblogaeth; mae tlodi plant yn effeithio ar 32% neu 200,000 o blant. Mae trechu tlodi yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae gan Gymru ystod amrywiol o gymunedau buddiant, a gall pob un ohonynt wneud cyfraniad gwerthfawr.

**Dysgu a deall:** Mae'r amgylchedd yn cynnig llawer o gyfleoedd i bobl ddysgu gydol eu hoes. Mae dros 1,650 o ysgolion a gynhelir gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae prifysgolion, colegau a'r cyhoedd yn defnyddio'r amgylchedd fel adnodd dysgu hefyd. Mae cynnwys yr amgylchedd mewn dysgu gydol oes yn gallu helpu pobl i ddeall ei bwysigrwydd a'i berthnasedd i fywyd bob dydd. Gall codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus a diogelu ein hamgylchedd at y dyfodol.

## Ein cynigion

**Byddwn yn ymateb yn effeithiol ac mewn ffordd gydlynol i ddigwyddiadau amgylcheddol a pheryglon fel llifogydd, llygredd a chlefydau, a helpu i leihau'r perygl llifogydd i bobl ac eiddo, drwy:**

- Weithio gyda phartneriaid i wella trefniadau ymateb brys aml-asiantaeth
- Adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu amddiffynfeydd llifogydd a byddwn yn gweithio gydag eraill, yn enwedig y cymunedau a allai gael eu heffeithio
- Sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael ein gwasanaeth rhybuddion llifogydd a gwella ein rhagolygon llifogydd er mwyn rhoi rhybuddion mwy amserol a chywir.

**Byddwn yn darparu cyfleoedd sy'n cefnogi swyddi a thwf gwyrdd sy'n seiliedig ar yr amgylchedd naturiol – sicrhau bod cymunedau a grwpiau dan anfantais yn y cymunedau hynny yn elwa ar y manteision economaidd, a'u helpu i drechu tlodi drwy:**

- Ddatblygu a darparu cyfleoedd hyfforddi, yn cynnwys prentisiaethau, lleoliadau gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli
- Defnyddio cymalau caffael budd cymdeithasol yn ein gwahoddiadau i dendro, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gymunedau a busnesau lleol
- Cefnogi cyfleoedd i ddatblygu mentrau a sicrhau eu bod yn cynnwys cymunedau ac yn cyflwyno manteision i gymunedau ac ymwelwyr lle bo modd.

**Byddwn yn darparu ac yn galluogi cyfleoedd hamdden a mynediad sy'n cyfrannu at wella iechyd a lles pobl, drwy:**

- Hwyluso'r gwaith o reoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Llwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru, ac ar dir sy'n eiddo i ni neu a reolir gennym, datblygu ein canolfannau ymwelwyr a darparu cyfleoedd hamdden ar gyfer amrywiaeth eang o bobl
- Gweithio gydag eraill i ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd i ddarparu hamdden a mynediad diogel a chroesawgar o safon uchel, yn enwedig ar gyfer y cymunedau hynny nad ydynt yn cael fawr ddim cyfle i fwynhau mannau gwyrdd naturiol ar hyn o bryd
- Gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol ac eraill i annog pobl i ddefnyddio'r awyr agored i helpu i wella iechyd a lles corfforol a meddyliol, yn enwedig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

**Byddwn yn helpu i sicrhau bod pobl yn gallu byw mewn amgylchedd o ansawdd, gweithio ynddo ac ymweld ag ef, yn cynnwys pobl mewn ardaloedd trefol a phobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, drwy:**

- Wella ansawdd yr amgylchedd lleol (er enghraifft, drwy leihau tipio anghyfreithlon), gwella treftadaeth ddiwylliannol a nodweddion unigryw'r dirwedd, a gwella bioamrywiaeth
- Sicrhau mwy o goed mewn ardaloedd trefol a phwysleisio manteision coed trefol
- Sicrhau bod y tir sy'n eiddo i ni ac a reolir gennym yn cynnig cyfleoedd diogel a chroesawgar ar gyfer adfywio cymunedau a mentrau cymdeithasol, dysgu a datblygu sgiliau, a chyfleoedd hamdden a mynediad gwell, a sicrhau bod cymunedau lleol yn elwa ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy.

**Byddwn yn darparu ac yn galluogi cyfleoedd i bobl ddysgu yn yr amgylchedd naturiol a dysgu amdano a'i fwynhau, drwy:**

- Weithio gydag ysgolion, colegau, cyflogwyr a sefydliadau'r sector gwirfoddol i wella cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant, gan helpu i arwain at gyflogaeth
- Datblygu a chefnogi mentrau a rhaglenni yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ger y tir sy'n eiddo i ni, a reolir ac a arolygir gennym
- Helpu i annog y defnydd o'r amgylchedd fel adnodd ar gyfer addysg a dysgu, gan alluogi plant a phobl ifanc i ailgysylltu â byd natur
- Cefnogi dysgu gydol oes a chodi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol, ac yn yr amgylchedd naturiol, er mwyn i bobl allu gwneud penderfyniadau seiliedig ar wybodaeth am faterion sy'n effeithio ar ein hamgylchedd.

## Cwestiynau: Da i Bobl

7. A ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffordd rydym yn awgrymu eu cyflawni?
8. A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig?
9. Sut gallwn ni weithio orau mewn partneriaeth â chi i gyflawni'r rhain? Beth allwch chi ei wneud i helpu?

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## Lle Da i Fusnesau – 'lleoliad o ddewis' ar gyfer busnes a menter a man lle mae arfer gorau o ran rheoli'r amgylchedd yn cael ei fabwysiadu a'i annog

### Yr angen am newid:

Yn ôl ein rhanddeiliaid mae diwydiant a busnesau yn rhannu ein hamcanion amgylcheddol a byddent yn croesawu arddull mwy cydweithiol a llyfnach, gan fynd ati ar y cyd i chwilio am atebion ac ymatebion amserol, a diogelu a gwella'r amgylchedd yr un pryd. Mae angen i ni ddefnyddio'n hadnoddau naturiol yn fwy effeithlon ac effeithiol wrth i ni symud tuag at economi carbon isel.

**Rheoleiddio busnesau a diwydiant:** Caiff tua 1,700 o safleoedd diwydiant, gwastraff a dŵr eu rheoleiddio ledled Cymru. Mae 17% o'r dŵr sy'n cael ei dynnu allan yng Nghymru yn mynd i ddiwydiant: y cyfanswm mwyaf heblaw'r cyflenwad dŵr cyhoeddus. Mae 48% o wastraff masnachol a diwydiannol yn cael ei ailddefnyddio neu'i ailgylchu ar hyn o bryd, ac mae 36,000 o achosion o dipio anghyfreithlon bob blwyddyn. Gall gwastraff fod yn adnodd gwerthfawr – gall ddarparu ynni, neu ddeunydd ar gyfer gwaith adeiladu, er enghraifft.

**Ein busnes ni:** Rydym yn marchnata dros 825,000 o fetrau ciwbig o goed bob blwyddyn, gan gyflawni 300 o gontractau cynaeafu, a darparu cyflogaeth drwy ein contractwyr. Rydym yn creu incwm o feysydd parcio a chyfleusterau eraill i ymwelwyr yn ein prif safleoedd hamdden. Mae gennym gynllun codi tâl am drwyddedau sy'n adennill y costau cysylltiedig. Rydym hefyd yn cynnal busnesau a mentrau yn yr ardaloedd dan ein rheolaeth yn cynnwys ynni adnewyddadwy fel cynlluniau ffermydd gwynt a phŵer hydro-electrig.

### Ein cynigion

**Byddwn, fel rheoleiddiwr, yn rhoi cyngor seiliedig ar dystiolaeth a phenderfyniadau clir mewn da bryd fel y gall busnesau yng Nghymru weithredu'n effeithiol a bodloni'r safonau amgylcheddol uchaf, drwy:-**

- Ddatblygu dull un pwynt cyswllt, gan annog ymgysylltiad o'r cychwyn fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i oresgyn problemau a llunio atebion sy'n cynorthwyo busnesau i ddatblygu wrth helpu i leihau'r baich ar fusnesau a gyda chyn lleied â phosibl o effaith ar yr amgylchedd
- Cynnig cyngor a chyfarwyddyd, a rheoleiddio a monitro cydymffurfiaeth mewn modd cymesur
- Deall yr effaith y gall newidiadau rheoleiddio neu bolisi ei chael ar y gadwyn gyflenwi a galw gyfan
- Mynd i'r afael â throseddau amgylcheddol, gweithgareddau anghyfreithlon a pherfformiad amgylcheddol gwael ymhlith y rhai rydym yn eu rheoleiddio er mwyn sicrhau bod pob busnes yn cael ei drin yn yr un modd.

**Byddwn yn gweithio gyda busnesau, diwydiant a llywodraeth i gynorthwyo gyda datblygiad seilwaith hanfodol ac annog datblygiadau yn y mannau cywir er mwyn sicrhau y rheolir ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy:**

- Sicrhau bod ein cyngor cynllunio a'n penderfyniadau trwyddedu wedi'u seilio ar ystyried cael systemau naturiol sydd â'r gallu i wrthsefyll ac yn ddiogel (dull rheoli ar lefel yr ecosystem)
- Darparu canllawiau ac ymatebion clir ac amserol a gwneud penderfyniadau diamwys mewn da bryd ar gyfer ein holl weithgareddau cynllunio a thrwyddedu
- Gweithio'n rhagweithiol gyda datblygwyr a chydgysylltu ein gweithgareddau cynllunio a thrwyddedu.

**Byddwn yn gweithio'n agos gydag eraill i nodi, datblygu a chefnogi cyfleoedd busnes newydd a chyfleoedd newydd ar gyfer swyddi a hyfforddiant er mwyn creu gweithlu medrus yng Nghymru drwy:**

- Helpu i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer cynhyrchion newydd mewn partneriaeth ag eraill yn cynnwys marchnadoedd arbenigol
- Sicrhau bod gennym gysylltiadau da yn ôl ar gyfer rhannu dysgu a phrofiad gyda ffermwyr, rheolwyr tir ac eraill
- Defnyddio'r tir a reolwn i annog mentrau, gan sicrhau bod y seilwaith cywir yn ei le, ac edrych ar ffyrdd arloesol o ddatblygu busnesau, mentrau cymunedol a chymdeithasol, a phartneriaethau lleol
- Cynnwys rhwymedigaeth i ddarparu cyfleoedd hyfforddi yn ein contractau hirdymor a chefnogi cynlluniau hyfforddi a phrofiad gwaith drwy ein rhaglenni dysgu.

**Byddwn yn cynyddu ein hincwm yn gydnaws â'n diben, gan ail-fuddsoddi'r incwm hwnnw i ddarparu rhagor o fudd i'r cyhoedd, drwy:-**

- Wneud y gorau o'r asedau a reolwn, gan ddefnyddio'n gweithrediadau cyfredol a chwilio am ffyrdd newydd arloesol o greu cymaint o incwm â phosibl heb gael effaith andwyol ar reolaeth gynaliadwy
- Sicrhau ein bod yn esiampl heb ei hail o arferion busnes cynaliadwy a sicrhau gwerth i'r cyhoedd pan fyddwn yn weithredwr cystadleuol
- Cydnabod bod ein mentrau'n aml yn ein helpu i sicrhau manteision ehangach i'r cyhoedd a chefnogi hynny.

## Cwestiynau: Da i Fusnesau

10. A ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffordd rydym yn awgrymu eu cyflawni?
11. A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig?
12. Sut gallwch chi weithio orau mewn partneriaeth â ni i gyflawni'r rhain?

## Defnyddio Gwybodaeth Dda – meithrin doethineb a dealltwriaeth o'n hamgylchedd naturiol a sut rydym ni'n effeithio arno – defnyddio tystiolaeth a dysgu o brofiad, fel y gallwn ni wneud penderfyniadau da

### Yr angen am newid

Mae angen i ni rannu ein gwybodaeth a thystiolaeth gydag eraill a gwneud llawer o waith partneriaeth, gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r egwyddor 'casglu unwaith, defnyddio droeon'. Rydym eisiau i'n cyngor a'n penderfyniadau fod yn seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth dda, a byddwn yn defnyddio ein dysgu a'n profiad i wneud y penderfyniadau gorau – a mwyaf amserol – i Gymru.

### Ein cynigion

**Byddwn yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd, ein heconomi a'n pobl yng Nghymru, a lle Cymru yn y byd, gan barhau i adolygu ein tystiolaeth i sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau sy'n wynebu adnoddau naturiol Cymru drwy:**

- Ddatblygu dulliau arloesol o gasglu tystiolaeth, fel gofyn i gymunedau lleol fonitro, cynnwys y cyhoedd yn y gwaith ac ymgysylltu â hwy, a thrwy ddysgu o brofiad
- Gweithio ar y cyd â'r gymuned wyddonol ehangach i rannu tystiolaeth a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, a mynd ati i gomisiynu rhywfaint o waith ymchwil ein hunain hefyd
- Gofalu ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o dystiolaeth a gwybodaeth pobl a sefydliadau eraill lle mae eisoes ar gael, yn hytrach nag ail-greu'n tystiolaeth a'n gwybodaeth ein hunain
- Deall lle Cymru yn y byd, a'r cyfraniad y gallwn ei wneud
- Dysgu o'r arfer gorau posibl y gallwn ei ganfod yn rhyngwladol ac edrych ar sut y gallwn ei ddefnyddio yng Nghymru.

**Byddwn yn datblygu a rheoli sail o dystiolaeth gadarn i fod yn sylfaen i'n penderfyniadau strategol a gweithredol drwy:**

- Sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r ddedfwriaeth berthnasol ar ddata, gwybodaeth, cofnodion ac adrodd canolog; safonau diwydiant; a pholisïau perthnasol
- Coladu a dadansoddi data gweithredol a'i drosi'n wybodaeth i ategu penderfyniadau ac adroddiadau ar gydymffurfiaeth
- Darparu mynediad hawdd ac amserol at ein data a'n gwybodaeth.

**Byddwn yn rhannu a hyrwyddo defnydd o'n tystiolaeth fel y gall eraill wneud penderfyniadau seiliedig ar wybodaeth drwy:**

- Sicrhau bod tystiolaeth a gwybodaeth amserol a dibynadwy ar gael i sefydliadau partner a'r cyhoedd
- Cynnig pecynnau o dystiolaeth wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer ardaloedd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac ar gyfer pynciau neu feysydd gwaith arbennig
- Gweithio gydag eraill i gyfuno tystiolaeth amgylcheddol mewn un ganolfan ddata i Gymru.

### Cwestiynau: Gwybodaeth Dda

13. A ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffordd rydym yn awgrymu eu cyflawni?
14. A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig?
15. Sut gallwch chi weithio orau mewn partneriaeth â ni i gyflawni'r rhain?

## Ein sefydliad: sut rydym ni'n gweithio

Mae'r adran hon yn nodi *sut* rydym yn bwriadu gweithio yn hytrach na *beth* rydym yn bwriadu ei gyflawni. Eto byddem yn croesawu'ch barn, felly atebwch y cwestiynau ar ddiwedd yr adran.

Mae creu Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cyfle unigryw i ddechrau o'r newydd, ond gan gymryd yr elfennau gorau o'n gorffennol lle bo hynny'n gwneud synnwyr. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, gallwn elwa ar brofiad ledled Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru a bod yn esiampl i eraill o ran cynllunio, adeiladu a datblygu.

Bydd ein gwerthoedd yn llywio'n ffordd o weithio a beth rydym yn ei ddisgwyl oddi wrth ein staff.

Bydd angen cryn newid wrth i ni fynd ati i wireddu ein huchelgeisiau: bydd rhai ohonynt yn digwydd yn raddol ond bydd llawer ohonynt yn golygu cefnu ar y gorffennol a chanfod ffyrdd newydd o gyflawni. Er mwyn llwyddo mewn cyfnod o newid sylweddol, rhaid cael y ffocws a'r ddisgyblaeth orau bosibl o ran rheoli rhaglenni a phrosiectau, a chysylltiadau gwaith o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a phroffesiynoldeb.

Bydd y newid hwn yn cymryd sawl blwyddyn i'w roi ar waith. Mae angen i ni gyflwyno'r newid a sicrhau parhad busnes.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru wreiddiau dwfn ym mhob rhan o Gymru – gwlad a thref, tir i'r môr, ac o goedwigoedd mawr i safleoedd diwydiannol. Byddwn yn trefnu ein timau ac yn gweithio mewn cymunedau a dalgylchoedd ac o'u hamgylch. Ond mae angen i ni hefyd fanteisio ar wybodaeth arbenigol pobl eraill a datblygu ffyrdd gwell o wneud pethau –

cydnabod ac adeiladu ar ein galluoedd ni'n hunain i ategu rhanddeiliaid eraill, yn hytrach na chystadlu yn eu herbyn. Mae ein rhanddeiliaid yn dweud wrthym eu bod eisiau gweithio'n agos gyda ni mewn partneriaeth adeiladol a didwyll. Mae hyn yn golygu rhannu a gwneud y defnydd gorau o adnoddau, yn cynnwys staff, ddefnyddio tir ac arbenigedd yn ogystal ag arian.

Er mwyn cyrraedd y nod, bydd angen i ni ddysgu, gan ddefnyddio gwybodaeth a data mewn ffordd dryloyw; defnyddio tystiolaeth ac arfer gorau o bedwar ban byd fel sail i'n penderfyniadau; a defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd hyblyg.

Mae adborth ein cwsmeriaid wedi bod yn glir – byddwch yn gyson ond nid yn anhyblyg; pan fyddwch chi'n dweud eich bod am wneud rhywbeth, a phryd y byddwch yn gwneud hynny, cadwch at eich gair; sicrhewch ei bod yn hawdd gweithio gyda chi; a dylech ymgysylltu yn gynnar ar unrhyw faterion. Mae angen i ni egluro ein dull gweithredu yn glir hefyd fel bod ein cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid a'n partneriaid yn gwybod beth i'w ddisgwyl gennym.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisiau bod yn gyflogwyr heb ei ail – gan wobrwyo staff a chynnig swyddi o safon a rhagolygon gyrfa da. Ein huchelgais yw bod yn sefydliad llawn amrywiaeth ac un agored, lle mae potensial yn cael ei gydnabod a lle mai perfformiad rhagorol yw'r safon arferol. Mae rhai elfennau o'n gwaith yn beryglus a mentrus; byddwn yn gweithio'n ddiflino i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles staff, cwsmeriaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

### Cwestiynau: Sut rydym ni'n gweithio

16. A ydych chi'n cytuno â sut rydym ni'n bwriadu datblygu ein sefydliad?
17. Beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws i chi weithio gyda ni?

## Sut byddwn ni'n mesur llwyddiant: Adrodd ar pa mor dda rydym yn cyflawni ein gwaith

Fel sefydliad sy'n cyflawni, mae angen i ni allu dangos sut rydym wedi perfformio, yn unigol ac ar y cyd â'n partneriaid, ac a yw pobl a chymunedau ar eu hennill o ganlyniad i hynny.

Bydd yr ymgynghoriad hwn, a'n trafodaethau gyda'n rhanddeiliaid, yn dangos yn glir i ni beth mae ein cwsmeriaid eisiau i ni ei wneud, gan ddangos beth fydd yn cyfrif fel llwyddiant a rhoi cyfle i ni ddatblygu ein nodau.

Bydd ein Cynllun Corfforaethol yn cynnwys y nodau hyn a fframwaith ar gyfer asesu ein perfformiad o ran eu cyflawni. Bydd hyn yn adlewyrchu ein cyfraniad at gyflawni'r amcanion cyffredin y soniwyd amdanynt yn gynharach yn y ddogfen hon.

Byddwn yn cyhoeddi dangosyddion ar gyfer yr amcanion hyn er mwyn i ni allu eu holrhain. Byddwn yn gosod mesurau perfformiad hefyd i ddangos faint rydym ni wedi'i wneud, pa mor dda rydym wedi'i wneud, a beth yw'r canlyniadau.

Byddwn yn adrodd yn gwbl agored pa mor dda rydym yn cyflawni yn erbyn ein Cynllun Corfforaethol a Chynlluniau Busnes blynyddol. Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau yn ein Hadroddiad Blynyddol a bydd ein Bwrdd yn trafod perfformiad yn gyhoeddus o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

### Cwestiynau: Adrodd ar pa mor dda rydym yn cyflawni ein gwaith

18. Ai dyma'r ffordd gywir o asesu ein gwaith cyflawni?
19. A wyddoch am ddangosyddion penodol y dylem eu holrhain?
20. Beth fydd yn cyfrif fel llwyddiant?

### Yn olaf:

21. A hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach?

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.**

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar ein gwefan ac yn defnyddio'ch barn i helpu i lunio ein Cynllun Corfforaethol.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau eraill, neu os hoffech gopi o'r ddogfen hon mewn fformat arall, e-bostiwch **corporate.planning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru. Cedwir pob hawl.

Gellir atgynhyrchu’r ddogfen hon o gael caniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru